Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cynllun Lleol ar gyfer Wrecsam

2021/22

Gwasanaeth AD a DS
Datblygu'r Gweithlu

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cynnwys

Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) **3**

Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol **4**

Adnoddau **4**

Trefniadau Cydweithio ac Arfer Gorau sy'n Dod i'r Amlwg sy'n cefnogi sgiliau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol y rheng flaen **4**

Gweithio mewn Partneriaeth 5

Cymunedau am Waith 5

Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu 5

Cymwysterau newydd 6

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a chofrestru'r gweithlu Gofal Preswyl i Oedolion 7

Awtistiaeth 7

Partneriaeth Gradd Gwaith Cymdeithasol 7

Cyfarfodydd Grŵp Teulu 8

e-Ddysgu 8

Gwerthuso a Rheoli Perfformiad **9**

Canlyniadau ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir 9

Blaenoriaethau Lleol **11**

Hyfforddiant Therapyddion Galwedigaethol 12

Hyfforddiant / cymwysterau rheoli 13

Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm 13

Hyfforddiant Cymhwyso Gwaith Cymdeithasol – Gradd Gwaith Cymdeithasol – Gweithwyr a Gefnogir **13**

Hyfforddiant Gradd Gwaith Cymdeithasol Eraill – Myfyrwyr a "Gynhelir" a Dysgu Ymarfer 13

Hyfforddiant Ôl Gymhwyso Gwaith Cymdeithasol **14**

Cymwysterau Addysgu Ymarfer 14

Cyfnerthu / 3 blynedd gyntaf mewn Ymarfer 14

Tystysgrif i Raddedigion "Porth Agored" mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol 14

Asesydd Iechyd Meddwl a Lles Gorau (BIA) 15

Atodiadau **16**

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2021/22 **16**

ATODIAD A: CALENDR (OEDOLION) 2021/22 17

ATODIAD B: CALENDR (PLANT) 2021/22 20

Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP)

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar y cyd ac mae ei haelodaeth a'i swyddogaeth wedi'u nodi yn ein cynllun cyfathrebu:

https://www.wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

Mae'r Bartneriaeth wedi'i strwythuro heb gynrychiolaeth ffurfiol gan ei bod yn agored i bob darparwr cofrestredig yn Wrecsam

Blaenoriaethau cyffredinol y bartneriaeth yw:

> *"Cydweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y sector gofal i bobl Wrecsam"*

Yr amcanion allweddol yw:

- Codi proffil y sector gofal, yn fewnol ac yn allanol
- Cydlynu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu
- Rhannu arferion da e e ar gyfer recriwtio a chadw staff
- Gwella mynediad at gronfeydd hyfforddiant
- Nodi materion gweithlu penodol ar gyfer Wrecsam – tymor byr/canolig a hirdymor
- Rhannu gwybodaeth / darparu ymateb cydlynol i bapurau ymgynghori
- Ymateb i fentrau'r gweithlu

Mae'r Bartneriaeth yn parhau i nodi mynediad i gymwysterau a chyrsiau byr fel blaenoriaeth Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn narpariaeth hyfforddiant a chymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r sector

Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae'r cynllun lleol wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi blynyddol gan y Bartneriaeth Gweler Atodiad A (Oedolion) ac Atodiad B (Plant)

Ar ôl cael eu cymeradwyo, caiff y Cynllun a'r daflen wybodaeth sy'n nodi digwyddiadau hyfforddiant eu hanfon at bob aelod yn electronig a'u cyhoeddi ar y wefan:

http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/workforce_strategy/index.htm

https://www.wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

Cyswllt Arweiniol ar gyfer SCWDP, Arweinydd Datblygu'r Gweithlu, Louise Davies
Rhif ffôn: 01978 292982
E-bost: workforcedevelopment@wrexham.gov.uk

Adnoddau

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Datblygu'r Gweithlu ar gyfer swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol Mae darpariaeth y SCWDP yn rhan o gylch gwaith y gwasanaeth hwn Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu gan eu bod yn ei weld fel maes blaenoriaeth Mae hyn yn cysylltu ag elfen 'Sefydliad' Cynllun y Cyngor "Creu sefydliad effeithlon ac effeithiol sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi lles pobl leol"

Y rhaglen cymorth hyfforddiant dangosol gan Gofal Cymdeithasol Cymru yw **£441,696** Wrecsam yw un o'r ychydig o Awdurdodau Lleol sy'n parhau i fuddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi'r grant yn ogystal â'i 30% gorfodol

Trefniadau Cydweithio ac Arfer Gorau sy'n Dod i'r Amlwg sy'n cefnogi sgiliau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol y rheng flaen

Wrth i'r Cyngor ail-lunio ei wasanaethau i ymateb i bwysau ariannol ac anghenion newidiol, mae cyfle i wella effeithlonrwydd ac archwilio cydweithredu pellach er mwyn datblygu'r gweithlu ar draws Gogledd Cymru

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn sector amrywiol a gall anghenion lleol amrywio Mae angen i ddarpariaeth hyfforddiant ymateb i hyn ac ystyried beth y gellir ei wneud yn lleol, yn rhanbarthol ac yn isranbarthol

Mae angen rhoi ystyriaeth i'r canlynol wrth ddatblygu'r model darpariaeth priodol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Gwasanaethau rhanbarthol / isranbarthol a'u mynediad i Ddatblygu'r Gweithlu
- Darpariaeth hyfforddiant arbenigol i grwpiau bach gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol
- Ymateb i fentrau polisi'r Llywodraeth neu ddeddfwriaeth newydd
- Arbedion effeithlonrwydd gan ddefnyddio pŵer archebu nifer o Awdurdodau Lleol
- Partneriaethau gyda darparwyr hyfforddiant eraill, yn arbennig Coleg Cambria a Glyndŵr
- Cynllun y Cyngor a blaenoriaethau *"Creu sefydliad effeithlon ac effeithiol sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi lles pobl leol".*
- Strategaeth y Gweithlu Datblygu Sefydliadol Corfforaethol (ODWS)

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae cydweithredu yn dibynnu ar anghenion y gweithlu Yn Wrecsam, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi'r sector gyda darparu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a chynnwys y cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd Ar ôl targedu darparwyr gofal cartref yn bennaf, rydym hefyd yn cynnwys y gwasanaethau preswyl, i'w paratoi ar gyfer cofrestru gorfodol yn 2022 Rydym yn parhau i drefnu digwyddiadau gwybodaeth i reolwyr sector Ein bwriad yw cefnogi datblygiad y Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu yn seiliedig ar waith ar draws yr holl wasanaethau, er mwyn iddynt arwain ar ddarparu a chydlynu hyfforddiant a datblygiad gweithwyr o fewn eu timau eu hunain

Cymunedau am Waith

Mae ein gwaith partneriaeth gyda Chymunedau am Waith yn parhau, er bod Covid-19 wedi oedi darparu'r rhaglen "Cyflwyniad i yrfa mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol" i bobl ddi-waith yn Wrecsam Mae ein partneriaid yng Nghymunedau am Waith wedi cadarnhau diddordeb parhaus gan unigolion sy'n byw yn Wrecsam i fynychu'r cwrs hwn Gobeithir y bydd llacio'r cyfyngiadau yn ein galluogi i aildrefnu dyddiadau ar gyfer darparu, a'n helpu yn y pen draw i barhau i gefnogi prosesau recriwtio mawr eu hangen yn y sector gofal cymdeithasol

Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu

Rydym yn bwriadu addasu'r rhaglen 'Cyflwyniad i Sgiliau Hyfforddwr' fel bod modd i ni ddarparu'r hyfforddiant trwy blatfformau dros y we Bydd hyn yn helpu i gynyddu nifer y Cynrychiolwyr Dysgu a

Datblygu ar lefelau rheoli a lefelau uwch i ennill sgiliau perthnasol i ddarparu hyfforddiant mewnol a chefnogi eu staff yn well trwy'r broses sefydlu Bydd hyn yn galluogi mwy o wasanaethau darparwyr i fod yn hunangynhaliol wrth ddiwallu rhai o'u hanghenion hyfforddiant eu hunain

Ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu sydd eisoes wedi cwblhau'r Cyflwyniad i Sgiliau Hyfforddwr, rydym wedi dilyn dull "Hyfforddi'r Hyfforddwr" i'w cyflwyno i raglenni hyfforddiant, fel rhoi meddyginiaeth Yn ystod pob sesiwn, caiff y Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu eu cyflwyno i'r adnoddau byddant yn eu defnyddio i ddarparu eu hyfforddiant mewnol eu hunain Bydd y sesiynau dros y we hyn yn parhau i gael eu cynnig trwy'r flwyddyn, a rhoddir blaenoriaeth i anghenion hyfforddiant staff a gaiff eu rhannu gyda ni gan y Cynrychiolwyr Dysgu a Datblygu

Cymwysterau newydd

Rydym wedi cynllunio darpariaeth y cymhwyster craidd newydd a'r elfennau addysgu sy'n ofynnol fel rhan allweddol o'r cymhwyster Gan ymateb, mae'r tîm asesu wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau addysgu i gwmpasu elfennau unigol yn y cymhwyster craidd Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniadau byr a gweithgareddau cysylltiedig i gefnogi a dangos dysgu Y bwriad yw i aseswyr ddarparu'r sesiynau byr hyn (tua 1 awr o hyd) i grwpiau bach o ddysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster Bydd hyn yn hyrwyddo dysgu gan gyfoedion er bydd darpariaeth i ddysgwyr unigol yn cael ei chynnig hefyd

Mae'r sesiynau yn cwmpasu pob agwedd o'r cymhwyster craidd, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol a pholisïau cenedlaethol, Cod Ymarfer Proffesiynol, dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, eiriolaeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru, cyfathrebu, lles, gofal pwysau, gofal personol, gofal diwedd oes, maeth a hydradu, rhoi meddyginiaeth, nam ar y synhwyrau, dementia, arfer broffesiynol, diogelu ac iechyd a diogelwch mewn gofal cymdeithasol

Caiff dull tebyg ei ddilyn gyda darpariaeth cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Bydd hwn yn cynnwys rhaglen fwy strwythuredig i ddarparu ar gyfer y lefel dysgu uwch, sy'n ofynnol ar lefel 4 Bydd y rhaglen yn cynnwys nifer benodol o ddyddiau ar gyfer darparu, dros amserlen wedi'i chynllunio o tua 18 mis Bydd y gwersi a gaiff eu haddysgu yn cwmpasu pob elfen o'r cymhwyster a byddant yn cynnwys dysgu dan arweiniad er mwyn i gyfranogwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau, a fydd yn eu paratoi ar gyfer y tasgau asesu bydd gofyn iddynt eu cwblhau

Rydym yn parhau â'n cyfranogiad yn y grŵp **"Gofalwn",** sy'n hyrwyddo prosiect Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda'r nod o wella **recriwtio a chadw staff** ar draws y sector Gofal Cymdeithasol Byddwn yn adeiladu ar fenter wythnos 'Gofalwn' a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020 Gwnaethom gymryd rhan mewn ffilm i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol Cymerodd amrywiaeth o unigolion ran, gan gynnwys Gweithiwr Cymdeithasol, Ymarferwyr Gofal, Therapyddion Galwedigaethol ac Ymgynghorydd Codi a Symud yn Gorfforol

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a chofrestru'r gweithlu Gofal Preswyl i Oedolion

Yn yr un modd ag a wnaethon ni gefnogi'r sector gofal cartref, bydd Datblygu'r Gweithlu yn parhau i ddefnyddio nifer o ffyrdd i ddarparu gwybodaeth i reolwyr preswyl a'u cefnogi i baratoi staff ar gyfer cofrestru gorfodol a gweithredu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan yn llawn Bydd hyn yn cynnwys mynychu fforymau darparwyr perthnasol, hwyluso sesiynau briffio a gweithdai a darparu gwybodaeth, fel y ddogfen "Canllawiau i Reolwyr" rydym wedi'i chynhyrchu Rydym yn deall yn llwyr y pwysau presennol sy'n bodoli oherwydd Covid-19 a'r effaith mae hyn yn ei chael ar flaenoriaethau gwasanaeth, felly bydd dull sensitif yn cael ei ddilyn wrth i ni ymgysylltu â rheolwyr a'u cefnogi dros y misoedd nesaf

Awtistiaeth

Rydym yn gweithio fel rhan o Fudd-Ddeiliaid Gweithlu Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar God Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth (Adran 3 – Hyfforddiant) i ddatblygu canllawiau clir a diffinio cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd o ran dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau y bobl maen nhw'n eu cyflogi Rydym wedi datblygu hyfforddiant Awtistiaeth yn dilyn adborth a chydweithio gydag unigolion Awtistig a'r rhai sy'n cefnogi unigolion Awtistig yn ardal Wrecsam

Partneriaeth Gradd Gwaith Cymdeithasol

Mae Wrecsam yn buddsoddi yn y Bartneriaeth trwy gyflogi Swyddog Datblygu a Hyfforddi Staff sy'n gyfrifol am gydlynu Cyfleoedd Dysgu Ymarfer Gwelir hyn fel cyfrifoldeb partneriaeth, sy'n creu cyfleoedd am ddull is-ranbarthol i ddiwallu anghenion myfyrwyr

Mae'r chwe arweinydd ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod addysg GC ar draws y sector gyfan i sicrhau dull gweithio cyson, i rannu arferion da ac i ymateb i anghenion rhanbarthol a nodwyd Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr i ddatblygu darpariaeth leol (h y Gogledd Cymru) ar gyfer cymwysterau Addysgwr Arfer

Mae CBSW yn rhan o bartneriaeth gyda Phrifysgol Caer i ddarparu hyfforddiant a chymwysterau Iechyd Meddwl Arbenigol ochr yn ochr ag ALl eraill Gogledd Cymru

Rydym yn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol ar draws y sector i gael mynediad i gymwysterau, gyda phwyslais penodol ar y Dystysgrif i Raddedigion mewn Arfer Gwaith Cymdeithasol, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer cofrestru parhaus bellach Rydym wedi hwyluso grŵp "Blwyddyn Gyntaf mewn Ymarfer" i gefnogi staff sydd newydd gymhwyso, fel rhan o'n hymrwymiad i Ofal Cymdeithasol Cymru Fframwaith "Y Tair Blynedd Cyntaf mewn Ymarfer" Rydym wedi bod yn rhan o ddatblygiad dull rhanbarthol o ran deilliannau dysgu cyffredin ar gyfer y grŵp hwn o staff

Cyfarfodydd Grŵp Teulu

Byddwn ni'n gweithio gyda'r sector plant i ddatblygu cynnig Cyfarfodydd Grŵp Teulu i helpu teuluoedd i ganfod eu datrysiadau eu hunain i broblemau Byddwn ni'n cynnig hyfforddiant i'n partneriaid i'w galluogi i gynnal cyfarfodydd teulu llwyddiannus yn yr arena anstatudol ac felly, gobeithio, lleihau'r angen am ymyriadau amddiffyn plant statudol

Mae gwaith Partneriaeth anffurfiol arall yn cynnwys:

- Ymchwilio hyfforddiant ar gyfer Gofalwyr Anffurfiol gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
- Cyd-ddarparu hyfforddiant gan ddefnyddio arbenigedd mewnol fel Therapi Galwedigaethol a Gweithwyr Cymdeithasol
- Darparu hyfforddiant arbenigol trwy gydweithwyr iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Comisiynu darparwyr lleol i deilwra hyfforddiant i ddiwallu anghenion y sector
- Adrannau eraill fel Tai, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch

e-Ddysgu

Mae gennym gatalog helaeth o fodiwlau hyfforddiant gofal cymdeithasol gan gynnwys diogelu, ymwybyddiaeth o feddyginiaeth, rheoli haint, cynllun atal codymau, asesiad risg, offer sgrin arddangos a hunan-esgeulustod ac ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch i'w cynnig i'r sector Mae cysylltiadau agos wedi'u cynnal gydag Iechyd ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu dau fodiwl cynllun atal codymau, un ar gyfer Gofal Cartref ac un ar gyfer Cartrefi Gofal Gellir defnyddio'r modiwlau hyn fel rhai atgoffa neu fel rhan o ddull cymysg o ddysgu, darparu rhywfaint o wybodaeth am ddeddfwriaeth a damcaniaeth cyn ymgymryd â dysgu wyneb yn wyneb mwy ymarferol

Byddwn ni'n parhau i weithredu dulliau dros y we o ddysgu a chynnig sesiynau datblygu trwy Zoom, Microsoft Teams a Skype Cafodd ein dull ar-lein ei gyflymu yn 2020 oherwydd cyfyngiadau'r pandemig Bydd hyn yn cefnogi ffyrdd modern o weithio wrth symud i 2021/22

Bydd Community Care Inform (CCI) yn parhau i fod ar gael fel adnodd electronig i bawb sy'n gyflogedig yn adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant y Cyngor

Byddwn ni'n archwilio a darparu hyfforddiant sgiliau digidol mewn partneriaeth ag Addysg Bellach a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru (DU) i gefnogi gweithlu sy'n hyderus yn ddigidol

Gwerthuso a Rheoli Perfformiad

Canlyniadau ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir

Mae cyflawniad Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y sector gofal cymdeithasol yn dangos bod yr unigolion hynny'n gallu darparu gwasanaeth o ansawdd a gydnabyddir gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mae canlyniadau uniongyrchol ac effeithiolrwydd hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn cael ei asesu gan werthusiad cwrs a gwblheir gan y cyfranogwyr

- Hyfforddiant rheoli – cynhelir cyfarfodydd gyda rheolwyr ymgeiswyr i ddeall / gwerthuso sut mae eu hymarfer wedi datblygu
- Cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol – bydd ymgeiswyr yn llenwi ffurflenni gwerthuso ac adborth Mae ganddynt hefyd gyfle i gwrdd â Chydgysylltydd Sicrwydd Ansawdd mewnol ac allanol
- Mae nifer o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cyflawni bob blwyddyn ar draws y sector
- Niferoedd a safon y Cyfleoedd Dysgu Ymarfer i Fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol (Adroddiadau i Uwch Reolwyr) ac i Ofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygon ôl-gymhwyso
- Arolwg Gweithwyr CBSW
- Adborth gweithwyr CBSW o Ymarfer, Adolygu a Datblygu
- Adborth gan Ofal Cymdeithasol Cymru trwy Adolygiadau Monitro Blynyddol o'r holl raglenni partneriaeth

Mae casglu data blynyddol y gweithlu yn darparu gwybodaeth ynglŷn â niferoedd y staff cymwysedig yn y sector Mae rheolwyr hefyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion hyfforddi o fewn eu gwasanaeth

Mae'r tîm Monitro Contractau yn ymgymryd ag adolygiadau perfformiad darparwyr Maent yn cyfweld â staff, unigolion sy'n derbyn gwasanaethau a'u gofalwyr Mae gweithwyr yn darparu adborth ar eu cefnogaeth gan reolwyr, cyfleoedd datblygu a darpariaeth gwasanaeth Gofynnir i unigolion, eu gofalwyr a'u teuluoedd am adborth am y gweithlu a darpariaeth gwasanaeth o ansawdd

Cyfeiriad Strategol

- Alinio datblygu'r gweithlu gyda **Cymru Iachach – Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**, gweithio gyda phartneriaid i gyd-gynhyrchu cynlluniau gweithredu/ darparu wedi'u dylunio o amgylch saith thema allweddol Gweithlu iach wedi'i ymgysylltu a'i gymell, denu a recriwtio, modelau gweithlu di-dor, meithrin gweithlu sy'n ddigidol barod, addysg a dysgu rhagorol, arweinyddiaeth ac olyniaeth, cyflenwad a siâp y gweithlu

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** - Byddwn yn parhau i gefnogi darparwyr cofrestredig i gynyddu lefelau eu staff cymwys trwy gynnig hyfforddiant a chyfleoedd asesu

- Byddwn ni'n parhau i gefnogi gweithredu **Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dyrannu cyllid i Awdurdodau Lleol i gynyddu eu niferoedd o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a noddir, i gefnogi'r cynllun "Grow your own"

- Bydd dull rhanbarthol o ran deilliannau dysgu i gefnogi'r tair blynedd gyntaf mewn arfer yn parhau i gael ei gyflawni

- Byddwn yn parhau i gefnogi staff mewn rolau Asesydd Gofal Cymdeithasol i ennill y cymwysterau priodol a argymhellir

- Byddwn yn ceisio datblygu fframwaith a strwythur gyrfa i annog datblygiad sy'n cwmpasu'r rolau cefnogi hyn

- Byddwn yn cefnogi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Fframwaith Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth ar ôl Cymeradwyaeth

- Byddwn yn cefnogi'r sector i recriwtio a chadw staff

- Byddwn yn cynnal y cysylltiadau â'r canlyniadau Lles yng nghynllun y cyngor a'r blaenoriaethau yn Strategaeth y Gweithlu Datblygu Sefydliadol (ODWS)

- Darparu'r Cynllun Gweithredu Treigl Rhanbarthol

Blaenoriaethau Lleol

- Darparu hyfforddiant i gefnogi gweithredu Trefniadau Diogelu Rhyddid a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2022
- Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i weithwyr gyflawni cymwysterau Iechyd Meddwl arbenigol
- Ail-fuddsoddi mewn cyfleoedd i weithwyr presennol ennill cymwysterau proffesiynol ochr yn ochr â'r angen a nodwyd i gadw staff Gwaith Cymdeithasol
- Parhau i fuddsoddi yn y cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymateb i ffurflenni Dadansoddi Anghenion Hyfforddi Arolwg y Gweithlu (manylion ar y calendr) sy'n cynnwys sgiliau hyfforddi i reolwyr, cymryd risgiau positif, gofal dementia a chefnogaeth â chymwysterau
- Ymateb i anghenion datblygu gan gysylltu â'r tîm gofal cymdeithasol sy'n seiliedig yn CEM Berwyn
- Cryfhau'r defnydd o drosolwg rheoli; defnyddio cronolegau; asesu; gweithio gyda rhieni; a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar blentyn gan ymateb i adroddiadau arolygu
- Cefnogi datblygiad cyfarfodydd grŵp teulu
- Cryfhau'r defnydd o fyfyrio mewn sesiynau goruchwylio i ymateb i adroddiadau arolygu
- Hyrwyddo e-ddysgu a dulliau digidol eraill fel dull gwaith cymysg i ddatblygu'r gweithlu
- Archwilio a darparu hyfforddiant ar Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gyfer gwasanaethau darparwyr
- Cefnogi datblygiadau gyda'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Fframwaith Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth ar ôl Cymeradwyaeth i wella sgiliau gweithwyr cymdeithasol wrth gefnogi hyn a gwaith uniongyrchol â gofalwyr maeth
- Hyrwyddo pwysigrwydd Cofnodi Profiadau Bywyd i wella hunan-barch yn ein Plant sy'n Derbyn Gofal
- Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i gynyddu capasiti gweithwyr cymdeithasol i weithio ochr yn ochr â'r Heddlu wrth Sicrhau'r Dystiolaeth Orau
- Cefnogi ein fframwaith datblygu gyrfaoedd i weithwyr cymdeithasol ochr yn ochr ag AD ac uwch reolwyr fel rhan o'n strategaeth recriwtio a chadw staff ehangach

- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth o risg a dadansoddi wrth wneud penderfyniadau i ddiogelu plant
- Trefnu hyfforddiant ar y cyd i gefnogi gweithredu'r Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus
- Cynyddu capasiti ar gyfer asesiadau arbenigol mewn Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a chapasiti rhianta'r rhai sydd ag anabledd dysgu cydnabyddedig trwy ddefnyddio Meddalwedd Llawlyfr Asesu Rhieni (PAMS)
- Darpariaeth Iaith Gymraeg - bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn Wrecsam Rydym wedi darparu hyfforddiant ar fframwaith strategol "Mwy na geiriau" ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a hyfforddiant sgiliau Cymraeg penodol i staff gofal uniongyrchol

Hyfforddiant Therapyddion Galwedigaethol

Bydd gan y tîm Therapi Galwedigaethol fynediad i amrywiaeth o gyrsiau proffesiynol Roedd cyfyngiadau Covid yn atal sesiynau gloywi wyneb i wyneb rhag cael eu cynnal y llynedd, mae'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol wedi cael mynediad i seminarau 'gofal meintiau cywir' Bydd cronfa ddata A1 Risk Solutions gyda mwy na 340 o fideos sgiliau, profion gwybodaeth a phapurau ymchwil yn parhau i gefnogi eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Wrth i fuddion gofal unigol gael eu cydnabod, rydym yn parhau i'w hyrwyddo o fewn gwasanaethau fel dull system gyfan Mae Hyfforddwyr Therapyddion Galwedigaethol a Chodi a Symud yn Gorfforol yn cael eu datblygu i sicrhau eu bod yn defnyddio technegau cywir yn hyderus a bod ganddynt wybodaeth am offer priodol i'w galluogi i weithredu gofal unigol yn effeithiol Bydd hyfforddiant i'r tîm Therapi Galwedigaethol yn cynnwys:

- Pasbort Codi a Symud a Hyfforddwr Allweddol
- Seddau Pediatrig Cymhleth
- Hyfforddiant Codi a Symud yn Gorfforol Pediatrig Cymhleth
- Asesydd Dibynadwy neu BTEC mewn darparu offer cymunedol
- Hyfforddiant Ymddygiad Heriol/Seibiant (hyfforddiant Gloywi Blynyddol)
- Hyfforddi'r Hyfforddwr, Codi a Symud (hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd)
- Gofal Unigol/Gofal ag Urddas
- Hyfforddiant Addasiadau

- Addysg Arfer
- ILM lefel 2/3
- Hyfforddi a Mentora
- Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyfforddiant i alluogi llwybr gyrfa

Hyfforddiant / cymwysterau rheoli

Byddwn yn parhau i gynnig datblygiad rheoli i'r sector gofal cymdeithasol

Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y cymhwyster hwn i reolwyr gweithredol ac mae angen i ni fonitro lefelau cadw staff yn y maes hwn Mae diddordeb yn y rhaglenni Rheolaeth Ganol wedi bod yn llai llwyddiannus

Hyfforddiant Cymhwyso Gwaith Cymdeithasol – Gradd Gwaith Cymdeithasol – Gweithwyr a Gefnogir

Mae dau weithiwr yn cwblhau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored ar hyn o bryd, bydd un yn cymhwyso ym mis Rhagfyr 2022 a'r llall ym mis Rhagfyr 2023 Caiff rolau gwaith cymdeithasol eu dyrannu iddynt a chânt eu "paru" â chyfleoedd dysgu arfer priodol ar gyfer lefel 2 a 3 Maent wedi cael contract i aros yn eu rolau am gyfnod o ddwy flynedd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wario dros £30,000 i gefnogi'r hyfforddiant hwn Mae'r costau yn cynnwys ffioedd Prifysgol a chostau perthnasol, ynghyd â chefnogaeth ariannol ar gyfer staff ychwanegol Caiff y cynllun ei adolygu gyda gwasanaethau Plant yn ogystal â gwasanaethau Oedolion, ac rydym yn gobeithio noddi o leiaf un unigolyn i ddechrau hyfforddiant eleni Rhoddir ystyriaeth i gefnogi unigolion sy'n ymwneud â'r Radd ar hyn o bryd fel myfyrwyr "Agored" hefyd (h y heb eu noddi) Eleni, rydym wedi gallu cefnogi myfyrwyr o Brifysgolion y tu allan i'n trefniadau a gytunwyd yn ffurfiol, er mwyn cynyddu ein cyfleoedd ymhellach i ddatblygu'r gweithlu presennol, recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol

Hyfforddiant Gradd Gwaith Cymdeithasol Eraill – Myfyrwyr a "Gynhelir" a Dysgu Ymarfer

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i Gyfleoedd Dysgu Ymarfer o ansawdd uchel ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol, ac mae'n parhau i gefnogi hyd at 45 o fyfyrwyr "a gynhelir" ar draws bob lefel hyfforddiant dan gytundebau mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr Er gwaethaf yr heriau a brofwyd gan y gweithlu eleni, mae diddordeb mewn cymwysterau Asesu Ymarfer perthnasol wedi cynyddu ochr yn ochr â swydd-ddisgrifiadau Gwaith Cymdeithasol CBSW wedi'u hadolygu, wedi'u cefnogi gan

geisiadau o'r sector annibynnol a'r sector gwirfoddol Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at amrywiaeth ac ehangder cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr Mae ymrwymiad parhaus i'r broses hon yn hyrwyddo datblygu sgiliau ymysg gweithwyr, ac yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ennill eu plwyf mewn perthynas â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Codau Ymarfer Proffesiynol a safbwyntiau damcaniaethol Mae hefyd yn creu rhwydwaith o ymarferwyr profiadol sy'n gallu cefnogi ac asesu eraill ar gyfer yr amrywiaeth o ddyfarniadau ôl-gymhwyso Mae rôl Addysgwr ymarfer wedi'i ddileu fel elfen hanfodol o ddatblygiad gyrfa bellach, felly bydd angen i ni fonitro unrhyw effaith gaiff hyn ar ein cyfrifoldebau partneriaeth a datblygiad gyrfa

Mae staff sydd newydd gymhwyso yn dal i gael eu recriwtio'n gyson i swyddi parhaol a "sesiynol", ac mae Swyddogion Gweithlu AD yn cysylltu â myfyrwyr a gynhelir ar bob lefel i hyrwyddo'r cyngor fel cyflogwr

Hyfforddiant Ôl Gymhwyso Gwaith Cymdeithasol

Cymwysterau Addysgu Ymarfer

Mae gennym gyllid ar gael i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol a gyflogir gan naill ai'r Awdurdod Lleol neu asiantaethau Gwaith Cymdeithasol/Gofal Cymdeithasol eraill, i gwblhau Cymwysterau Addysgu Ymarfer Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn yr hyfforddiant hwn eleni, sydd wedi ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldeb partneriaeth

Cyfnerthu / 3 blynedd gyntaf mewn Ymarfer

Mae'r Cyngor wedi ffurfioli'r broses ar gyfer mynediad at ddyfarniadau cyfnerthu, yn unol â dogfen "3 Blynedd Gyntaf mewn Ymarfer" Gofal Cymdeithasol Cymru Er mwyn cefnogi'r gweithlu sydd newydd gymhwyso â her eleni, mae ein Grŵp "Blwyddyn gyntaf mewn ymarfer" a gafodd ei beilota y llynedd wedi cynyddu amlder cyfarfodydd o bob chwarter i bob mis

Tystysgrif i Raddedigion "Porth Agored" mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Datblygwyd gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae wedi bod ar gael ers mis Mai 2013 ac fe gofrestrodd cohort 16/17 yn ddiweddar Mae Partneriaid bellach yn ymwybodol o'r cysylltiad ffurfiol â Chofrestru Mae 27 o Weithwyr Cymdeithasol ar hyn o bryd yn ymgysylltu â'r rhaglen ar draws dau gohort, ac mae disgwyl y bydd 10-12 o gofrestriadau pellach ar gyfer 2021/22 Mae gweithdai wedi'u haddasu i gael eu darparu dros y we ar sail is-ranbarthol Mae'r gweithdai hyn wedi'u dylunio yng nghyd-destun y canlyniadau a gytunwyd yn rhanbarthol ar gyfer y tair blynedd cyntaf mewn ymarfer yn ogystal â deilliannau dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru Mae bwlch byr o ran gweithgarwch i ddarparu ar gyfer y newidiadau ac addasiadau o ran arfer gweithio'r 12 mis diwethaf wedi'i ddatrys bellach, a bydd cyfleoedd yn ailddechrau ar ddau bwynt cofrestru bob blwyddyn o fis Hydref 2021

Asesydd Iechyd Meddwl a Lles Gorau (BIA)

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Phartneriaeth Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy Swydd Gaer ar gyfer y Dyfarniad Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caer Dechreuodd dau weithiwr ar raglen Ionawr 2020, ac maen nhw'n cael cefnogaeth i gael mynediad i raglen arfer ddiwygiedig i ddarparu ar gyfer heriau'r 12 mis diwethaf, sydd wedi cael effaith sylweddol ar fynediad i gyfleoedd dysgu hanfodol Mae cefnogaeth gan ein hasiantaethau partner wedi'i groesawu'n benodol, gyda chynnig lleoliad gan Sir y Fflint i gefnogi ymgeiswyr yn EDT Mae diddordeb yn y modiwl "cyn Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP)" yn dal i fod yn iach, fodd bynnag oherwydd anawsterau wrth gael mynediad i gyfleoedd arfer priodol, mae ceisiadau ar gyfer hyfforddiant AMHP a chyn AMHP wedi'u hoedi nes bydd sefyllfa ein myfyriwr presennol wedi'i datrys Mae'n bosibl y bydd angen i ni gynyddu ein buddsoddiad yn y rhaglenni hyn pan fydd hyn wedi'i gyflawni

Mae'r cynllun a'r llyfryn hyfforddiant ar gael ar y rhyngrwyd ar:

https://www.wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

Atodiadau

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2021/22

Atodiad A: Calendr (Oedolion) 2021/22

Atodiad B: Calendr (Plant) 2021/22

ATODIAD A

CALENDR (OEDOLION) 2021/22

Teitl / Maes y Cwrs

DIOGELU

- Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu (Plant ac Oedolion)
- Diogelu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol
- Caethwasiaeth Fodern
- Rôl rheolwr gwasanaethau gofal a chefnogi
- Gwaith aml-asiantaeth i ymdrin ag achosion unigol
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sgyrsiau blwch offer a/neu e-Ddysgu
- Ymwybyddiaeth o Gam-Drin Domestig (Pobl Hŷn)
- Deddf Galluedd Meddyliol, Hawliau Dynol a Threfniadau Diogelu Rhyddid - Goblygiadau o ran arfer
- Trefniadau Diogelu Rhyddid i Ddarparwyr – Staff gofal uniongyrchol
- VAWDA Gofyn a Gweithredu
- Unigolyn Diogelu Dynodedig – gwasanaethau darparwr
- Ymholiadau ac archwilio Diogelu

CYFFREDINOL AC ARBENIGOL

- Sgiliau Rhoi Gwybod a Chofnodi
- Ymarfer Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau
- Sgiliau hyfforddi i reolwyr / goruchwylwyr
- Cymryd Risgiau Positif
- Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth
- Nam ar ddau synnwyr (hanner diwrnod)

- Rheoli Colled a Newid (hanner diwrnod)
- Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person
- Ymwybyddiaeth Ofalgar (hanner diwrnod)
- Trin Meddyginiaeth
- Chwe Cham – Gofal Diwedd Oes
- Cyrsiau amrywiol Hawliau Lles
- Deall Ymddygiad / Cyfathrebu
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Gweithio gyda phobl sy'n celcio
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu
- Ymwybyddiaeth o droseddau stepen drws a Sgamiau
- Sgyrsiau Gwell mewn Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Cymorth ymddygiad cadarnhaol

PENODOL I WAITH CYMDEITHASOL

- Porth Agored – Gweithdai Cyfnerthu
- AMHP
- AMHP – Cynnal Cymhwysedd
- Cymhwyster Addysgwr Ymarfer
- Gweithdai Addysgwr Ymarfer
- Gofal Iechyd Parhaus
- Goruchwyliaeth Fyfyriol
- Deddf Galluedd Meddyliol, LPS a Rôl AMCP

- Ymdrin â gwrthdaro
- 1 x Gwaith Cymdeithasol Arbenigol
- Gweithdai Hyrwyddo Community Care Inform
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

IECHYD A DIOGELWCH

- Pasbort Symud a Chario (2 ddiwrnod)
- Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith
- Cwrs Atgoffa Codi a Symud yn Gorfforol (1 diwrnod)
- Diogelwch Bwyd (CIEH 1 diwrnod)
- Symud a Chario Llwythi
- Hyfforddwr Allweddol Codi a Symud (3 diwrnod)
- Cwrs Atgoffa Hyfforddwr Allweddol Codi a Symud (1 diwrnod)
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch
- Symud a Chario (yn benodol i Therapi Galwedigaethol)
- Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Rheoli Heintiau
- Ymchwilio Damweiniau, Asesu Risg a Monitro
- Asesu Risg
- Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod cymhwyso)
- Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (2 ddiwrnod ailgymhwyso)
- Cymorth Cyntaf Brys Pediatreg yn y Gweithle
- Swyddog cyfrifol
- Diogelwch Personol

ATODIAD B

CALENDR (PLANT) 2021/22

Teitl / Maes y Cwrs

DIOGELU

- Hyfforddiant diogelu ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Diogelu plant ag anableddau
- Camfanteisio Troseddol ar Blant

CYFFREDINOL

- Gweithio gyda theuluoedd gwrthwynebus
- Cofnodi profiadau bywyd
- MAKATON - dechreuwyr
- MAKATON - canolradd
- Deddf Galluedd Meddyliol ac LPS i bobl ifanc
- Diogelwch Personol
- Iechyd meddwl i reolwyr
- Sgiliau hyfforddi i reolwyr
- Mewnosod canlyniadau
- Awtistiaeth: gweithio gyda phobl ifanc â nodweddion awtistig
- Ymlyniad
- Cynadleddau a Grwpiau Craidd
- Deall dibyniaeth – achosion, effeithiau, adferiad

PENODOL I WAITH CYMDEITHASOL

- PAMS – Asesu rhieni ag anawsterau dysgu
- AIMS – Asesiad HSB
- Asesu Risg a Dadansoddi Gweithwyr Cymdeithasol
- Goruchwyliaeth Fyfyriol
- Cronolegau

GWEITHIO AR Y CYD/ MENTRAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

- Hyfforddiant Ymchwil ar y Cyd
- Sicrhau'r Dystiolaeth Orau
- Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth ar ôl Cymeradwyaeth

IECHYD A DIOGELWCH (i gyd yn e-Ddysgu ac mewn dosbarth*)

- Rhoi a Thrin Meddyginiaeth yn Ddiogel
- Diogelwch Bwyd
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch/Rheoli Heintiau
- Hyfforddiant Diogelwch Seddi Car
- Cymorth Cyntaf Brys Pediatreg yn y Gweithle

GWASANAETH MAETHU

- Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth (hanner diwrnod)
- Gweithio gyda Theuluoedd Biolegol a Chyswllt
- Diogelu yn cynnwys honiadau
- Cefnogi Addysg a Datblygiad
- Cymorth Cyntaf Brys Pediatreg yn y Gweithle

GWELLA YSGOGIAD

- Ymyraethau'n canolbwyntio ar amcanion
- Ymgysylltu â newid ymddygiad
- Gwella Ysgogiad

CYFLAWNI NEWID GYDA'N GILYDD (TAC) A TEULUOEDD YN GYNTAF

- Cyflwyniad i TAC x 2 (hanner diwrnod)
- Adeiladu Sgiliau Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd

Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

- Hyfforddiant cyfranogi
- Hyfforddiant diogelu i wirfoddolwyr

HYFFORDDIANT ÔL GYMHWYSO GWAITH CYMDEITHASOL

- Porth Agored – Gweithdai Cyfnerthu
- Cymhwyster Addysgwr Ymarfer
- Gweithdai Addysgwr Ymarfer
- Plant, Gofal Iechyd Parhaus
- Goruchwyliaeth Fyfyriol
- Deddf Galluedd Meddyliol ac LPS - Rôl AMCP